# I'R BLODYN YN FY MYWYD



Roedd Cheryl wrth ei bodd! Jonathan wedi trefnu i siop flodau lleol fynd â thusw anferth o flodau iddi! Gwerth oddeutu hanner can punt! Prawf pendant ei fod dros ei ben a'i glustiau mewn cariad â hi! A'r geiriau cyfoglyd ar y cerdyn? 'I'r blodyn yn fy mywyd!' Ych a fi!

Mae'r cyfan yn troi arna i! Mae'r busnes cariadus, llapswchus yma'n ddigon drwg ond mae sefyllfa'r blodau yn waeth! Does neb yn ystyried bod y rhan fwyaf o'r blodau wedi eu torri sy'n cael eu gwerthu ym Mhrydain wedi eu mewnforio. Does neb yn cofio eu bod nhw fel arfer yn cael eu cludo ar awyren gydag oergelloedd arni (os ydynt yn dod o'r tu allan i Ewrop) neu mewn lorïau gydag oergelloedd ynddynt (os ydynt yn dod o Ewrop). Ac wrth gwrs, mae cludo blodau mewn awyren a'u cadw'n oer yn cyfrannu at effeithiau newid yn yr hinsawdd. Ond beth ydy'r ots gan y farchnad flodau? Mae'n rhaid iddyn nhw gyrraedd y cwsmeriaid o fewn ychydig ddyddiau o gael eu torri! Cwsmeriaid fel Jonathan!

Beth sydd o'i le ar ein blodau cynhenid ni ym Mhrydain? Nid y rhai sy'n tyfu yn y gwyllt rydw i'n ei feddwl, ond y rhai sy'n cael eu tyfu'n fasnachol.

Er, dydw i ddim yn fodlon prynu'r rheiny bob amser chwaith. Bydd blodau i'w torri yn aml yn cael eu tyfu gan ddefnyddio gwrtaith, ac yn cael eu boddi mewn plaladdwyr. Mae'r mathau hyn o gemegion yn peri niwed i'r amgylchedd, gan achosi llygredd dŵr ac arwain at golli bioamrywiaeth.

Fyddwn i ddim yn teimlo mor ddig pe bai'r blodau'n cael eu tyfu yn organig oherwydd byddai hynny'n osgoi defnyddio plaladdwyr a gwrteithiau artiffisial ond does dim bwriad ar hyn o bryd i ddatblygu cynlluniau ardystio organig i flodau a phlanhigion tŷ yn y DU.

Ffaith arall sy'n fy nghorddi ydy'r holl fawn sy'n cael ei ddefnyddio i dyfu planhigion. Efallai nad yw'n hawdd darganfod a ydy planhigyn wedi ei dyfu mewn mawn ond gall rhai adwerthwyr ddweud wrth y cwsmer, yn enwedig y rhai sy'n tyfu eu planhigion ar y safle.

Mae blodau lleol tymhorol wedi eu torri yn ddewis gwell i'r amgylchedd oherwydd ei bod yn llai tebygol iddynt gael eu cludo'n bell ar awyren neu eu gwresogi yn ystod y broses gynhyrchu. Ac ydyn ni wir yn gwerthfawrogi'r genhinen Pedr ganol haf? Onid blodyn yn sirioli'r ddaear ddechrau'r gwanwyn ydy hi i fod?

Byddai'n well byth pe bai Jonathan wedi prynu planhigyn tŷ. Byddai hwnnw yn ffiltro llygryddion o'r aer yn yr ystafell fyw, ac felly'n cael effaith fanteisiol. Byddai'n rhatach ac yn byw yn hwy. Ond go brin y byddai hwnnw'n ddigon rhamantus!